# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar yr 8fed o Fehefin 2022
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn
# am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Wyn Jones (Is-Gadair), Wyn Evans,
Gerallt Davies, Carys Morgan a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Eiddwen Merritt, Garym Roberts a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Mai a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Ynglyn a rhoi golau yn Nerwen Gam, derbyniwyd ebost oddiwrth Heledd ac Arwyn yn dweud eu bod yn mynd i ofyn am ymateb y trigolion sut y maent yn teimlo am gael golau.

Roedd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies wedi bod mewn cyfarfodydd gyda Elin Jones Aelod o'r Senedd a Ben Lake Aelod Seneddol ynglyn a dod a'r terfynau cyflymder o'r Wide Horizon i gyrion Aberaeron i 40 m.y.a., hefyd mewn cyfarfod arall yn Ffos-y-ffin

i symud y safle bws o ger Eglwys Henfynyw i'r gilfan yn groes y ffordd i ddiogelu yn enwedig bobl fel yr henoed, yr anabl a phlant rhag orfod croesi'r gefnffordd. Roeddent yn gefnogol iawn i'r syniadau hyn ac yn fodlon helpu mewn unrhyw ffordd ag y gallen. Hefyd roedd y Cyngor Cymuned yn cefnogi hyn yn unfrydol.

**Cyfrifon y flwyddyn:**
Derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31ain o Fawrth 2022 a'I cymeradwyo.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Unrhyw fater arall:**
Soniodd y Cynghorydd Carys Morgan fod Pwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol yn gofyn i bentrefi Ceredigion cael eu haddurno i hybu'r Eisteddfod Genedlaethol fydd yn cael ei gynnal yn Nhregaron ddechrau Mis Awst. Paswyd i roi £200 tuag at yr addurniadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 13eg o Orffennaf.